CYMANFA FEDDYLU A DYCHMYGU

Ers ymddiswyddiad dramatig Iona Jones, ddechrau'r haf diwethaf, go brin fod wythnos wedi mynd heibio heb fod S4C yn y newyddion. Gyda gwleidyddion, sylwebwyr a bobl y cyfryngau oll yn cael dweud eu dweud mae perygl i feddwl fod yr holl gwestiynau y mae argyfwng y sianel yn ei godi wedi cael eu gwyntyllu drwyddi draw. Anghywir yw casgliad o'r fath ac unioni'r cam hwnnw yw nod cyntaf **Cymanfa Feddylu a Dychmygu** a gynhelir yn Theatr Felin-fach, ddydd Sadwrn, 26 Mawrth (10.30 – 4.00 o'r gloch).

Medd Euros Lewis, un o drefnwyr y digwyddiad: 'Mae swyddogion S4C wedi datgan yn glir mai adfer y berthynas â'r gynulleidfa yw eu nod cyntaf. Ystyr hynny yw ail-wreiddio'r sianel ym mhridd y diwylliant Cymraeg. Nid oes fawr o bwynt i drafod na gwleidyddiaeth, na phatrymau darlledu na hyd yn oed materion iaith y cyfrwng heb i ni fod yn glir ac yn sicr o beth yw nodweddion a photensial y diwylliant Cymraeg. Cynnyrch ein cyd-ddychymyg yw bro a chymdogaeth. Cynnyrch ein cyd-ddychymyg yw'n diwylliant.'

Diwrnod agored i bawb sydd am ymuno yn yr antur o ddychmygu S4C newydd fydd y gymanfa. I helpu'r broses o daflu hen fodelau o'r neilltu a chreu syniadau newydd sbon fydd y sylwebydd cyfryngol, **Jon Gower**, yr arbenigwraig ar arloesedd cynnar S4C, **Elain Price** (Prifysgol Abertawe) a'r cyfryngwr newydd **Rhodri ap Dyfrig** (Prifysgol Aberystwyth). Mi fydd **Ned Thomas** yn cyfrannu o'i brofiad o ddiwylliannau lleiafrifol eraill trwy gyfrwng cyfweliad ffilm.

Medd Gareth Ioan, Cadeirydd Theatr Gydweithredol Troedyrhiw a Phrif Weithredwr Iaith: y ganolfan cynllunio iaith, dau o brif hyrwyddwyr y digwyddiad: 'Cynorthwyo'r symudiad amlwg o fewn S4C i ail-ddarganfod ei gwreiddiau o fewn y diwylliant yw'n nod. Gweithredu'n gadarnhaol gyda'n gilydd yw'r unig ffordd ymlaen bellach a'n gobaith yw y bydd y gymanfa hon yn rhyddhau egni creadigol newydd o blith ystod eang o Gymry sydd am weld S4C yn atgyfnerthu, yn hytrach nag yn bygwth, ein hunaniaeth.'

Yn sail i'r trafod fydd dyfyniad oddi wrth yr ieithydd cymdeithasol Joshua Fishman:

"Most importantly of all, I have cautioned that minorities cannot merely be miniaturised versions of the majorities that surround them, but must also be multilingual and multicultural carriers of a life style that is distinctively and historically their own".

CYMANFA **DYCHMYGU S4C NEWYDD**
THEATR FELIN-FACH – DYDD SADWRN, 26 MAWRTH, 2011 – 11.00 – 4.00 o'r gloch (te/coffi o 10.30 ymlaen)
MYNEDIAD YN RHAD AC AM DDIM

COFRESTRU: 01570 471697 / 07813 173155 / swyddfa@theatrtroedyrhiw.com

HYWRWYDDIR GAN: **Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, Prifysgol Y Drindod Dewi Sant, Theatr Gydweithredol Troedyrhiw, Iaith: y ganolfan cynllunio iaith, Theatr Felin-fach, Cyngor Sir Ceredigion**

MANYLION PELLACH: Euros Lewis – 07813 173155 / 01570 471328 / 01267 676935 / e.lewis@ydds.ac.uk / euros@wesglei.freeserve.co.uk